

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Ruabon Road
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 20 Medi 2022

Dyddiad cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a nodwyd gennym
 - Ansawdd Profiad y Claf
 - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol
 - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Ruabon Road, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 20 Medi 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Ruabon Road yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff
- Roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb mewn preifatrwydd mewn swyddfa bwrpasol, allan o glyw'r cleifion
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas.
- Mae'r staff yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'w cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom y staff yn tywys cleifion i'r deintyddfeydd priodol.

Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod Practis Deintyddol Ruabon Road yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y clinigwyr yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor a chymorth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r ffordd y cofnodir dewis iaith y cleifion mewn cofnodion clinigol
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Sicrhau y gellir cael gafael ar gyffuriau a chyfarpar brys yn yr un lle mewn argyfwng.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd wedi'u hadnewyddu i safon uchel
- Dwy ystafell ddihalogi benodedig
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd da wedi cael eu cwblhau, a oedd yn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud yn sgil canlyniadau'r archwiliadau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Ruabon Road.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cafwyd cyfanswm o 21 o ymatebion. Roedd 16 o holiaduron wedi cael eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn dod i'r practis ers dros ddwy flynedd, roedd dau wedi bod yn dod am rhwng un a dwy flynedd, roedd dau arall wedi bod yn dod ers llai na blwyddyn ac nid oedd un yn siŵr.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

“Maen nhw'n wych”

“Roedd staff y dderbynfa yn gyfeillgar iawn ac yn barod iawn i helpu”

“Gwasanaeth rhagorol”

“Derbynfa a staff cyfeillgar iawn”

“Mae pob aelod o'r staff yn ddymunol ac yn barod iawn i helpu”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

“Cyflogi mwy o ddeintyddion ond does dim byd arall yn bod ar y gwasanaeth”

“Trefnu apwyntiadau drwy ap”

“Nid oes angen unrhyw welliannau”

“Nid oes angen gwelliannau yn fy marn i”

“Rwy'n hapus â'r gwasanaeth ac wedi bod ers sawl blwyddyn”

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn diogelu rhag y risg sy'n gysylltiedig â'r feirws, gwelsom fod masgiau wyneb a pheiriannau hylif diheintio alcohol wedi cael eu gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r practis. Roedd systemau puro aer yn cael eu defnyddio yn y deintyddfeydd er mwyn atal yr haint rhag cael ei drosglwyddo ymhellach.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunedol, roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith.

Dyweddodd pob un o'r cleifion wrthym, wrth fynd i'r practis, ei bod yn amlwg iawn bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau COVID-19 ar waith. Gwelsom fod y practis wedi llunio ei boster gwybodaeth ei hun yn nodi'r mesurau diweddaraf ar gyfer diogelu rhag COVID-19 a'r hyn y gallai cleifion ei ddisgwyl yn ystod eu hapwyntiad.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'r cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom y staff yn tywys cleifion i'r deintyddfeydd.

Dyweddodd yr 20 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Yn ogystal, roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb mewn preifatrwydd mewn swyddfa bwrpasol, allan o glyw'r cleifion.

Dyweddodd yr 20 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd dau glaf wrthym:

“Roedd gen i ofn y deintydd ar un adeg, ond rwy'n teimlo'n gyfforddus ac yn gallu ymlacio'n iawn yma”

“Mae'r staff yn gyfeillgar, yn effeithlon ac yn barod i helpu. Mae'n bleser mynd i weld y deintydd”

Dywedodd yr 20 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael. Dywedodd yr holl gleifion wrthym fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Dywedwyd wrthym fod tri aelod o staff y practis yn siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith a/neu fformat a bod dehonglydd ar gael iddynt.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos wrth y dderbynfa. Mae'r 9 Egwyddor yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac maent yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac yn cael ei harddangos wrth y brif fynedfa, yn yr ardaloedd aros ac yn y dderbynfa.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau¹.

Gwelsom fod posteri a thafleuni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol.

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gost triniaethau deintyddol ar gael yn y dderbynfa a'i bod wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael y wybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

¹ Mae Rheoliad 6 ac Atodlen 2 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn taflen wybodaeth i gleifion.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i'w hapwyntiadau.

Cadarnhaodd 10 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un a dywedodd 10 wrthym ei bod yn eithaf hawdd a dywedodd un wrthym nad oedd yn hawdd iawn.

Dywedodd 19 o'r 21 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi a dywedodd dau nad oeddent yn gwybod. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa ac roedd wedi'i gynnwys ar neges y peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom dystiolaeth bod opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod gofyn i bob claf gydsynio i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben².

Hawliau pobl

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

² Mae Rheoliad 5 ac Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn datganiad o ddiben.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Mae'r practis ar ddau lawr. Mae'r cyfleusterau clinigol ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod, y dderbynfa, dwy ardal aros, ystafell ymgynghori bwrpasol ar gyfer ymgynghoriadau preifat, a thoiledau. Roedd mynedfa ar wahân i bobl anabl yng nghefn yr adeilad. Mae'r cyfleusterau i'r staff ar y llawr gwaelod.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd yn cael ei harddangos yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom fod systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i gwynion.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu hystyried ar unwaith ond na chânt eu cofnodi. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig y dylid cofnodi unrhyw bryderon llafar neu anffurfiol mewn cofnodlyfr canolog fel y gellir eu monitro. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y bydd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio.

Trafodwyd sut mae'r practis yn mynd ati i geisio adborth cleifion, a wneir drwy anfon e-bost at gleifion ar ôl pob triniaeth yn eu hannog i roi adborth. Gall y cleifion hefyd adael awgrymiadau a/neu adborth ar wefan y practis. Mae blwch sylwadau hefyd ar gael yn yr ystafell aros. Caiff dadansoddiad o'r adborth ei drafod gan y tîm deintyddol a'i gyhoeddi ar wefan y practis. Mae hyn yn dangos bod y practis yn casglu adborth ac yn gweithredu arno er mwyn dysgu mwy a gwella'r gwasanaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd toiledau ar gael i'w defnyddio gan y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir ar eu cyfer ac roeddent yn lân iawn yn ôl pob golwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân. Fodd bynnag, gwnaethom nodi ei bod yn bryd i rai aelodau o'r staff adnewyddu eu hyfforddiant a chawsom sicrwydd gan y rheolwr cofrestredig fod cynlluniau ar waith yn barod i'r staff adnewyddu eu hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag amrywiol asesiadau risg, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd pob un o'r asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith, a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol/hyfforddiant dadebru brys.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ddwy ardal benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru

(WHTM) 01-05³. Roedd y ddau gyfleuster yn lân iawn ac yn drefnus. Roeddent yn cynnwys cyfarpar addas ac roeddent yn daclus.

Gwelsom fod y trefniadau dihalogi yn dda. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad wedi'i nodi arnynt.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.
- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac yn ddiogel.

Gwelsom fod y gweithdrefnau a oedd ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi pryd mae'r awtoclaf yn dechrau ac roedd gwiriadau diogelwch diwedd dydd yn cael eu cynnal.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff

³ Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd yr holl gyffuriau a chyfarpar brys yn drefnus ac wedi'u labelu'n glir ond nid oeddent yn cael eu storio mewn ffordd a fyddai'n galluogi rhywun i gario'r cyfan ar yr un pryd. Rydym yn argymhell y dylai'r practis adolygu'r cyffuriau a'r cyfarpar brys fel bod modd gafael yn yr eitemau gyda'i gilydd mewn argyfwng. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan y Cyngor Dadebru'r DU. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd dyddiad dod i ben padiau'r diffibriliwr wedi'i gynnwys ar y rhestr wirio. Rydym yn argymhell y dylai dyddiad dod i ben padiau'r diffibriliwr gael ei gofnodi ar y rhestr wirio hefyd.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith ynglŷn ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd y staff yn dangos eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a sicrhau lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Y prif ddeintydd / perchennog oedd yr arweinydd diogelu enwebedig.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda'r rheolwr cofrestredig ac roeddent yn hyderus iawn y byddai'n gweithredu ynghylch unrhyw bryderon.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd pob un o'r nyrsys deintyddol a'r staff gweinyddol wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob clinigydd wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a ddywedodd wrthym fod cynlluniau ar waith yn barod i'r staff dan sylw gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod ceisiadau eisoes wedi cael eu gwneud. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno tystiolaeth i AGIC bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu hadnewyddu i safon uchel.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau o belydrau-X yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd i'oneiddio diweddaraf.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau .

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd yn amlwg bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod amrywiol archwiliadau wedi cael eu cwblhau, megis croes-heintio, rhoi'r gorau i smygu, ansawdd pelydrau-X, cofnodion clinigol ac adborth cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod adolygiad gan gymheiriaid rhwng y staff clinigol wedi cael ei gynnal, sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Roedd y clinigwyr yn rhagweithiol, yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor a chymorth.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, gan sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i

neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelwch data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol da, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn benodol i'r unigolyn ac roeddent yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi yn y nodiadau clinigol. Rydym yn argymhell y dylid cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd llawer o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers cryn amser ac roedd perthynas dda rhyngddynt.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd pob aelod o'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi'r polisiau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Rhoddyd copi o'r datganiad o ddiben i ni a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnio priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Y gweithlu

Roedd gan y staff gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff hefyd yn cael eu cynnal.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau a'i rhwymedigaethau fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Ruabon Road

Dyddiad yr arolygiad: 20 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Ruabon Road

Dyddiad yr arolygiad: 20 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol gwasanaeth	Amserlen	
<p>Rydym yn argymhell y canlynol:</p> <p>dylai'r practis adolygu'r cyffuriau a'r cyfarpar brys fel bod modd gafael yn yr eitemau gyda'i gilydd mewn argyfwng.</p> <p>dylid cofnodi dyddiad dod i ben padiau'r diffibriliwr ar y rhestr wirio cyffuriau a chyfarpar brys.</p>	Canllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)	<p>Rydym wedi symud y cyffuriau brys o'r blychau sy'n gysylltiedig ag argyfyngau penodol i waledi plastig ac wedi rhoi'r cyfan mewn un bag fel y gellir mynd â phopeth yr un pryd</p> <p>Mae hyn wedi cael ei ychwanegu at ein rhestr</p>	Darna Jackson	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno tystiolaeth i AGIC bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 18, (3) Addasrwydd gweithwyr	Sicrhau bod pob aelod o'r staff heb wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael gwiriadau perthnasol - Mae'r amserlen a nodwyd gennyf yn seiliedig ar faint o amser y gall y gwiriadau hyn ei gymryd.	Suzanne Davies	Pob aelod o'r staff i gael gwiriad erbyn mis Mawrth 2023
Rydym yn argymhell y dylid cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion clinigol.	Safonau lechyd a Gofal: 4.2 Gwybodaeth i gleifion 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Practis ar 28/11/2022 a'i weithredu wedi hynny.	Suzanne Davies	28/11/2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Suzanne Davies

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig/Rheolwr y Practis

Dyddiad: 07/11/2022